1968-2008
40
Gwarchod Glöynnod Byw

Gwarchod Glöynnod Byw Cylchlythyr Blynyddol 2008



Uchaf, chwith i dde: Dr Martin Warren, Prif Weithredwr, Maurice Avent, Is-Gadeirydd a Russel Hobson, Pennaeth Cadwraeth Cymru gyda John Lloyd-Jones, Cadeirydd a David Parker, Cyfarwyddwr Gwyddoniaeth, CCGC, yn y lansiad yn Sioe Frenhinol Cymru.
Llun: Gwarchod Glöynnod Byw

Ar y dde: Y Brithribin Gwyn.
Llun: Helen Bantock

Bydd 2008 yn flwyddyn bwysig iawn i Gwarchod Glöynnod Byw wrth i'r Gymdeithas ddathlu 40 mlynedd ers ei sefydlu. Mae'n syfrdanol cymaint rydyn ni wedi symud ymlaen ers hynny. Er bod gennym bellach staff penodol wedi eu lleoli yng Nghymru, mae'r Gymdeithas yn dal i ddibynnu ar waith caled ac ymroddiad ein haelodau a'n gwirfoddolwyr i gyflawni llawer o'r gwaith cadwraeth a chofnodi ar lawr gwlad.

Gyda'r Flwyddyn Newydd, daw sialensiau newydd. Ychwanegwyd dros 70 o löynnod byw a gwyfynod i'r rhestr o Rywogaethau o'r Pwysigrwydd Pennaf yng Nghymru ('rhestr Adran 42'). Mae hyn yn adlewyrchu'r dirywiad parhaus yn nifer o'n rhywogaethau prin. I rai, fel y Gwyfyn Silwraidd neu'r Gwibiwr Brith, rydym eisoes yn gweithredu. I eraill, fel y Brithribin Gwyn (llun uchod), mae angen mwy o wybodaeth arnom o ran eu dosbarthiad yng Nghymru cyn i ni wybod sut dylem weithredu o ran eu gwarchod. Gyda mwy o rywogaethau, mae llawer o gyfleoedd newydd i gymryd rhan.

I wybod mwy yn ystod ein 40fed. flwyddyn a chael gwybod sut y gallwch chi helpu i warchod glöynnod byw a gwyfynod, ewch i'r wefan genedlaethol ar ei newydd wedd www.butterfly-conservation.org neu i ddwy wefan Canghennau Cymru www.southwales-butterflies.org.uk neu www.northwalesbutterflies.org.uk

Canmoliaeth yn Sioe Frenhinol Cymru i **Wirfoddolwyr Gwarchod Glöynnod Byw**

Dathlwyd gwaith gwirfoddolwyr Gwarchod Glöynnod Byw yn Sioe Frenhinol Cymru. Siaradodd Cadeirydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), John Lloyd-Jones a'u Cyfarwyddwr Gwyddoniaeth, Dr David Parker, yn wresog am y gwaith eithriadol a gyflawnwyd dros y pum mlynedd diwethaf. Gofynnwyd i Gwarchod Glöynnod Byw lansio rhifyn diwethaf ei gylchlythyr newyddion yn ystod yr achlysur er mwyn cydnabod y bartneriaeth gynyddol â CCGC. Rhoddwyd canmoliaeth arbennig i'r cylchlythyr newyddion fel ffordd ardderchog o hybu'r gwaith rydym yn ei wneud. Gobeithio y cewch chi'r rhifyn hwn yr un mor addysgiadol.

Gwirfoddolwyr, hen ac ifanc, yn helpu gyda gwaith cadwraeth ymarferol mewn safleoedd ledled Cymru. *Llun: Richard Smith*

Chwith i dde: John Lloyd-Jones, Cadeirydd ac Adrian Fowles, Uwch Ecolegydd Infertebrat, CCGC gyda'r Swyddog Prosiect Deborah Sazer a Dr Martin Warren, Prif Weithredwr, Gwarchod Glöynnod Byw yn lansiad Prosiect Mynydd Mawr ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain ym mis Medi 2007. *Llun: John Anderton*

Lindys Brith y Gors a welwyd yn ystod yr ymweliad. *Llun: John Anderton*

Dathlu Mynydd Mawr

Yn ddiweddar, dathlwyd cynnydd ein prosiect arloesol, Prosiect Brith y Gors Mynydd Mawr, tuag at sicrhau parhad casgliad pwysig o boblogaethau o löynnod byw Brith y Gors yn Sir Gâr.

Mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), rydym yn gwrthdroi blynyddoedd o ddirywiad cynefin yn yr ardal allweddol hon o gwmpas Cross Hands. Dynodwyd rhan ohoni yn Ardal Gadwraeth Arbennig yn union oherwydd bodolaeth Brith y Gors yno. Ar ben hynny, rydym yn helpu llawer o rywogaethau pwysig eraill trwy reolaeth sensitif porfeydd y Rhos (glaswelltiroedd llaith) yno gan gynnwys y Dylluan Wen, Pathewod a thegeirianau.

Mae nifer o dirfeddianwyr wedi arwyddo cytundebau 5 mlynedd i ferlod, ceffylau neu wartheg bori eu tir yn ysgafn – sy'n hanfodol o ran creu'r glaswelltir tuswog sydd ei angen ar Frith y Gors. Hyd yn hyn, rydym wedi sicrhau 25 hectar o dir gyda tharged o ychwanegu 25-30 hectar y flwyddyn. Mae hyn ar ben y 45 hectar sydd eisoes mewn cytundebau Tir Gofal neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Mae bron unrhyw dir â Bara'r Cythraul (planhigyn bwyd lindysyn Brith y Gors) yn gymwys, yn ogystal â thir sy'n cysylltu'r darnau yma o gynefin â'i gilydd. Yn ogystal â thalu perchnogion am bori, rydym yn trefnu a thalu am waith i gynnal y pori, fel ffensio, clwydi a chyflenwi dŵr. Rydym yn rhoi perchnogion heb stoc mewn cysylltiad â phorfawyr ac yn defnyddio contractwyr lleol i roi hwb i economi'r ardal. Yr un mor bwysig yw ein gwaith gyda phobl leol yn eu galluogi nhw i ddysgu am fywyd gwyllt cudd eu cymdogaeth ynghyd â'i werthfawrogi a'i warchod.

Fis Medi diwethaf, dathlon ni lwyddiant y Prosiect gyda grŵp mawr o bartneriaid, cefnogwyr a gwirfoddolwyr. Siaradodd Cadeirydd CCGC John Lloyd Jones a Phrif Weithredwr Gwarchod Glöynnod Byw Dr Martin Warren yn wresog am bwysigrwydd y prosiect. Ar ôl yr areithiau a chinio o gynnyrch lleol, ymwelon ni ag un o'n safleoedd cytundeb yng Nghaeau Lotwen. Dangosodd y Swyddog Prosiect Deborah Sazer a Swyddog Cadwraeth Cangen De Cymru Richard Smith y ffensiau a chyflenwad dŵr newydd y merlod i'r ymwelwyr, yn ogystal â lindys Brith y Gors yn adeiladu eu gweoedd larfal. Hefyd, siaradodd Richard Jones o Archaeoleg Cambria am hanes cylch cerrig hynafol y safle, Y Naw Carreg (er mai tair yn unig sy'n weddill erbyn hyn).

Meddai Rhian Jardine, o Gyngor Cefn Gwlad Cymru: "Dyma'r prosiect gwarchod glöynnod byw 'ar raddfa tirwedd' cyntaf o'i fath yng Nghymru. Fe fydd yn fodel ar gyfer llawer o brosiectau hanfodol eraill er mwyn sicrhau dyfodol y glöynnod byw arbennig yma. "

Am fwy o wybodaeth am y prosiect, cysylltwch â Deborah Sazer, Swyddog Prosiect Mynydd Mawr, ar 01792 642972 neu e-bostiwch wales@butterfly-conservation.org

Ymweld â Chaeau Lotwen, un o safleoedd y prosiect . *Llun: John Anderton*

Monitro glöynnod byw a gwyfynod Coedwigoedd Cymru

Mae glöynnod byw a gwyfynod ymhlith y grwpiau bywyd gwyllt sydd fwyaf o dan fygythiad sy'n trigo yn nhirddaliadau'r Comisiwn Coedwigaeth. Fel rheolwr tir gweithredol, gall y Comisiwn chwarae rôl hanfodol yn eu dyfodol.

Ymgymerwyd ag arolygon gwaelodlin o 56 o goetiroedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru rhwng 2001 a 2004. Amlygwyd 28 o safleoedd yn cynnal glöynnod byw a gwyfynod â blaenoriaeth o dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU. Mae Rhan 2 y prosiect, a ddechreuodd yng Ngwanwyn 2007, yn canolbwyntio ar fonitro'r safleoedd pwysig hyn er mwyn helpu targedu arferion rheoli yn fwy uniongyrchol, gyda mwy o frys, at anghenion y rhywogaethau hyn sydd â blaenoriaeth.

Gwibiwr Llwyd sy newydd ddeor yng Nghoedwig Harlech. *Llun: Helen Bantock*

Cynefin y Gwibiwr Llwyd yng Nghoedwig Harlech. *Llun: Helen Bantock*

Mae gwirfoddolwyr yn arwain y gweithgarwch monitro ac mae gwaith wedi dechrau mewn saith safle. Eisoes, cafwyd rhai datblygiadau a darganfyddiadau cyffrous:- Mae creu cynefin i'r Gwibiwr Llwyd ar waith yng Nghoedwig Harlech (Gwynedd), mae ymdrechion syfrdanol i faglu gwyfynod yn rhoi cofnodion gwerthfawr yng Nghoedwig eang Brechfa (Sir Gâr) lle na chafwyd llawer o gofnodion hyd yn hyn, amlygwyd yr angen am reolaeth fwy ymatebol i'r Dolennwr Llwydfelyn yng Nghoed yr Hendre (Sir Fynwy) ac arweiniodd y monitro ar sail glöynnod byw y Glesyn Bach a'r Gwibiwr Brith yng Nghoedwig Pen-bre ar arfordir De Cymru at ailddarganfod y Brithyn Perlog Bach (nad oedd ond wedi ei gofnodi unwaith ers 1951).

Mae llawer mwy o safleoedd lle mae angen monitro ar frys. Os hoffech chi gymryd rhan, cysylltwch â Clare Williams, Swyddog Cadwraeth ar 01792 642972 neu e-bostiwch wales@butterfly-conservation.org

Darganfod Gwyfynod yng Nghoedwig Brechfa

Yn 2006, ffurfiwyd hedyn grŵp gwyfynod lleol yng ngogledd Sir Gâr mewn cyfarfod ger Brechfa, lle cyfnewidiodd dwsin o eneidiau hoff cytûn syniadau am ei nodau. Cynhaliwyd tair gwibdaith grŵp a chafwyd cefnogaeth dda gan y cyhoedd i ddigwyddiad ar Noson Genedlaethol y Gwyfynod.

Yng Ngwanwyn 2007 ehangwyd y gweithgareddau. Roedd y tywydd yn llai na delfrydol ar gyfer cofnodi gwyfynod – hyd yn oed mewn safleoedd cysgodol – ac roedd yn aml yn wlyb ac yn wyntog, bron bob amser yn oerach o dipyn nag arfer.

Grŵp Brechfa yn maglu gwyfynod. *Llun: Martin Lovell*

Hyd yn hyn, mae'r grŵp wedi cofnodi dros 200 o rywogaethau o facro-wyfyn ac eithaf tipyn o ficro-wyfynod a'r nifer sy'n ei fynychu mewn ffigurau dwbl. Daliwyd nifer o wyfynod "lleol" yn ogystal â gwyfynod eraill â dosbarthiad sydd yn ymddangos yn fwy anghyson a llai niferus ar draws y Sir. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd y Ddraenen Fach na chawsai ei chofnodi o'r blaen yn Sir Gâr a Bachadain y Ffawydd a gofnodwyd ddiwethaf yn y Sir ym 1971. Gwnaethpwyd ymdrech ychwanegol ar Noson Genedlaethol y Gwyfynod lle defnyddiwyd dim llai na saith trap golau o wahanol fathau.

Mae cynlluniau ar y gweill i helpu sefydlu grwpiau lleol eraill yng ngogledd a dwyrain y Sir y flwyddyn nesaf lle, ar hyn o bryd, ychydig iawn a wyddys am ddosbarthiad gwyfynod a glöynnod byw.

Martin Lovell, Cofnodydd Glöynnod Byw Sir Gâr ac Edmygwr Gwyfynod.

Bachadain y Ffawydd, heb ei gofnodi yn Sir Gâr ers 1971. *Llun: Martin Lovell*

Gwyfyn Claergoch
Llun: Robert Thompson

Gwyfyn Cynffon Gwennol
Llun: Robert Thompson

Cyrsiau hyfforddi

Cyfrif Gwyfynod

Cymru 2008

Mae pob digwyddiad hyfforddi am ddim i bawb sy'n cymryd rhan ond mae'n rhaid eu bwcio ymlaen llaw trwy Gwarchod Glöynnod Byw: **01929 406009** neu **nmrs@butterfly-conservation.org**

Dydd Sadwrn 26 Ebrill, 19.30-23.00
Introduction to moths and moth recording

Canolfan Clawdd Offa, Trefyclo, Powys. Cwrs i ddechreuwyr dan arweiniad Norman Lowe.

Dydd Sul 1 Mehefin, 10.30-16.00
Cyflwyniad i wyfynod a chofnodi gwyfynod

Canolfan Amgylcheddol Moelyci, Tregarth, Bangor, Gwynedd. Cwrs i ddechreuwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, dan arweiniad Jon Harold.

Dydd Sadwrn 14 Mehefin, 11.00-16.00
Moth recording workshop

Swyddfeydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faesyfed, Llandrindod, Powys. Wedi ei anelu at y rheini sydd newydd ddechrau cofnodi gwyfynod. Dan arweiniad Norman Lowe.

Dydd Sul 15 Mehefin, 10.30-16.00
Introduction to moths and moth recording

Parc Gwledig Loggerheads, Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych. Cwrs i ddechreuwyr dan arweiniad John Harold.

Nos Sadwrn 26 Gorffennaf, 19.30-23.00
Cyflwyniad i wyfynod a chofnodi gwyfynod

Canolfan Amgylcheddol Moelyci, Tregarth, Bangor, Gwynedd. Cwrs i ddechreuwyr drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, dan arweiniad Jon Harold.

Dydd Sadwrn 29 Tachwedd , 11.00-16.00
Identifying difficult moths by genitalia

Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Caerdydd. Wedi ei anelu at gofnodwyr gwyfynod presennol heb brofiad o adnabod gwyfynod trwy archwilio genitalia. Dan arweiniad Norman Lowe.

Cam enfawr ymlaen i

Drawslunio Glöynnod Byw

Dydy monitro statws glöynnod byw Cymru trwy rwydwaith o drawsluniau a safleoedd eraill sy'n cael eu monitro erioed wedi bod yn fwy pwysig. Mabwysiadwyd glöynnod byw gan Lywodraeth y DU er mwyn dynodi cyflwr bywyd gwyllt a chefn gwlad ac mae'r dangosyddion hyn yn cael eu datblygu ar lefel y wlad. Er mwyn datblygu'r dangosyddion hyn, mae angen rhoi sylw da i rywogaethau a chynefinoedd. Fodd bynnag, yn hanesyddol mae sylw trawslunio yng Nghymru wedi bod yn anghyson ond mae wedi cynyddu'n sylweddol i 43 o safleoedd.

Cafwyd fforwm da yn Seminar Gwirfoddolwyr Gwarchod Glöynnod Byw Cymru ym mis Chwefror 2007 er mwyn amlygu bylchau sylw a blaenoriaethau o ran gosod trawsluniau newydd o'r pwys mwyaf i gadwraeth. Yn sgil hynny, mae'r galwadau am drawsluniau newydd a setiau data cyfredol wedi cael ymateb gwych gan ein gwirfoddolwyr.

Cyn 2007, roedd 28 o drawsluniau ar waith yng Nghymru. Yn ystod tymor arolygon 2007, gosodwyd tri ar ddeg o drawsluniau newydd a chafwyd data ar gyfer wyth trawslun na chyflwynwyd o'r blaen. Bellach, mae 49 trawslun ar waith yng Nghymru a'r rheini yn cyflwyno eu data i Gynllun Monitro Glöynnod Byw y DU (UKBMS) (Ffigur 1), gyda 43 ohonynt yn cyflwyno eu data ar gyfer 2007 erbyn y terfyn amser i'w defnyddio yn nadansoddiadau 2007; mae hyn yn fwy na'r hyn a ragwelwyd ar gyfer Cymru yn Adroddiad Blynyddol UK BMS 2006 (gw. Ffigur 2).

Hefyd, mae modd dod o hyd i ddata pwysig wrth fonitro rhywogaethau mewn ffyrdd eraill, er enghraifft cyfrif mesuredig o oedolion y Brithyn Perlog a chyfrif gweoedd larfal Brith y Gors. Mae gennym dros 20 safle sy'n cael eu monitro trwy'r dulliau 'heb drawslunio' yma yng Nghymru a'n gobaith yw rhoi hwb arall i fonitro mewn nifer o safleoedd pwysig yn 2008.

Mae bylchau sylw pwysig i'w llenwi o hyd ar gyfer monitro trwy drawslunio a heb drawslunio. Hefyd, rydym yn edrych am gydlynwyr lleol mewn nifer o rannau yng Nghymru. Os ydych chi'n teimlo yr hoffech chi gyfrannu at fonitro ein glöynnod byw yng Nghymru, byddem wrth ein boddau i glywed oddi wrthoch chi. Ar ben hynny, os ydych chi eisoes yn monitro glöynnod byw ond ddim yn cyflwyno eich data i UK BMS, cysylltwch â ni ar bob cyfrif.

Dylech gysylltu â Clare Williams (Cydlynydd Trawslunio Cymru) yn y lle cyntaf ar **01792 642972** neu e-bostiwch **wales@butterfly-conservation.org**, lle y gellir ymdrin â'ch ymholiad neu eich rhoi mewn cysylltiad â chydlynwyr lleol: Andrew Graham (Gogledd Orllewin Cymru), Bob Haycock (Sir Benfro) a Julian Jones (Powys); neu ag Ian Middlebrook (Cydlynydd Cynllun Monitro Glöynnod Byw y DU) fydd yn rhoi'r help a'r cyngor sydd eu hangen.

DIOLCH enfawr i'r holl gofnodwyr, gan gynnwys ein cydlynwyr trawslunio lleol, am yr ymdrech arbennig yma – dechrau gwych i ddyfodol mwy disglair ar gyfer rhwydwaith trawslunio Cymru!



Ffigur 1: Lleoliad safleoedd UKBMS yng Nghymru



Ffigur 2: Twf monitro trawsluniau yng Nghymru (ar sail y data a dderbyniwyd erbyn diwedd Tachwedd 2007)

Datblygiadau ym Mhrosiect Monitro Glöynnod Byw Cefn Gwlad Ehangach

Treuliodd Katie Cruickshanks ddau fis yn monitro 13 o sgwariau yn yr uwchdiroedd wrth warchodfa'r RSPB yn Llyn Fyrnwy ger y Trallwng. *Llun: James Miller*

Yn 2007, roedd Cangen De Cymru yn un o bedair cangen o Gwarchod Glöynnod Byw a wahoddwyd i faes-brofi'r dull newydd o fonitro glöynnod byw yn fwy effeithiol yng nghefn gwlad ehangach y DU i gyd. Seilir y dull newydd ar yr Arolwg Adar Magu ac mae'n golygu cyfrif glöynnod byw, gwyfynod sy'n hedfan yn ystod y dydd a gweision y neidr ar hyd dwy linell arolygu 1 cilomedr baralel trwy sgwariau 1 cilomedr ar hap.

Er gwaethaf tywydd gwael, cofnodwyd mwy na 300 o sgwariau gan ddyblu'r disgwyliadau. Ar draws y DU, gwelwyd 43 rhywogaeth o löynnod byw gan gynnwys bron pob rhywogaeth cefn gwlad ehangach ynghyd â phedwar ymfudwr a 14 sy'n arbenigo o ran cynefin. Ar gyfartaledd, gwelwyd tua 100 o löynnod byw a deg rhywogaeth y sgwâr ar sail dau ymweliad yn ystod yr haf. Gyda'r fath ddull poblogaidd ac effeithlon, rhagwelwn y gellid cerdded ar draws dros 1000 o sgwariau pan gaiff y cynllun ei lansio a fyddai'n golygu bod modd cyfrifo indecsau amlder cenedlaethol diduedd a monitro tueddiadau dros amser.

Cofnodwyd y Glöyn Trilliw Bach yn 65% o'r sgwariau gafodd eu monitro yng Nghymru. *Llun: Jim Asher*

Gan mai 2-4 ymweliad yn unig sydd eu hangen bob blwyddyn, mae gan y dull hwn y potensial i wella sylw yn enwedig yn yr uwchdiroedd. Yng Nghymru mae gwirfoddolwyr yn cerdded 35 o sgwariau a bron pob un o'r rhain yng nghynefinoedd yr uwchdiroedd. O ran diddordeb, ymhlith y rhywogaethau mwyaf toreithiog cafwyd y Glöyn Trilliw Bach yn 65% o'r sgwariau a gwelwyd Gweirlöyn Bach y Waun yn 44% o'r sgwariau.

Mae angen ymchwil a datblygu pellach yn 2008 a chynigir rhoi'r cynllun ar waith (yn amodol ar gyllid digonol) yn 2009. Hoffem ddiolch i'r holl gydlynwyr a chofnodwyr yng Nghymru am eu holl ymdrechion ynghyd â'r consortiwm o asiantaethau'r llywodraeth dan arweiniad DEFRA, am ariannu'r gwaith.

Am fwy o wybodaeth, ewch i **www.ukbms.org/wider_countryside_pilot.htm** neu cysylltwch â Katie Cruickshanks trwy **kcruickshanks@butterfly-conservation.org.**

25 Mlynedd o Fonitro Glöynnod Byw yng Ngwarchodfa Natur Trwyn Larnog

Mae Trwyn Larnog, tua 8 Hectar o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Clogwyni Penarth ar arfordir De Cymru, yn warchodfa natur ers 1967. Fe'i dynodwyd felly am ei laswelltir calchfaen llawn blodau ac am fod yn fan allweddol ar gyfer adar sy'n mudo. Mae hefyd yn gynefin gwerthfawr i löynnod byw gyda 29 o rywogaethau wedi eu cofnodi yno.

Am bron 30 mlynedd, ymladdodd gwirfoddolwyr yn ofer yn erbyn prysg oedd yn bygwth dolydd (yn llawn tegeirianau, Bara'r Cythraul, Banhadlen Aur a Chedorwydd Llewyg) a glöynnod byw y glaswelltir. Ers 1998, mae staff medrus â pheiriannau gyda chymorth tîm lleol wedi clirio dros un hectar o brysg ac mae'r glaswelltir wedi ei adfywio.

Ers 1970 rwyf wedi cadw rhestr barhaol o'r rhywogaethau o löynnod byw ac roeddwn wrth fy modd i ddod o hyd i bob un o'r pum Fanesid, Gwibwyr a Gweirlöynnod gydag ambell Lwydfelyn.

O 1982, defnyddiais ddull Cynllun Monitro Glöynnod Byw y DU.

O'u cymharu â ffigurau cenedlaethol a ddangosodd sawl lleihad yn ystod y blynyddoedd diwethaf hefyd, ymddengys fod Trwyn Larnog wedi gwneud ychydig yn well na'r wlad yn gyffredinol ac ni fu ein hymdrechion rheoli yn ofer.

John Zehetmayr, Warden Gwirfoddol Larnog ar gyfer Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru (ac Enillydd Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2007)

Canlyniadau 25 mlynedd o Fonitro (1982-2006)

Cynnydd	Sylweddol	Blaen-oren ac Adain Garpiog
	Gydag ychydig o leihad yn ddiweddar	Y Fantell Goch, Iâr Fach y Glaw* (gwelwyd am y tro cyntaf yn 1985), Glöyn Brwmstan, Glöyn Bach Gwyn/Gwythiennog, Glöyn yr Ysgall, Iâr Fach Lygadog, Brith y Coed
	Yn anwadal	Gweirlöyn y Perthi*, Gweirlöyn y Ddôl*
Fawr o newid	Ar eu hanterth ganol y 1990au, ychydig yn anwadal	Gwibwyr Bach a Mawr, Copor Bach, Glesyn Cyffredin a'r Glöyn Trilliw Bach
Lleihad	Bach	Gwibiwr Llwyd, Iâr Wen Fawr
	Sylweddol	Gweirlöyn Bach y Waun, collwyd yn 1998
Cipolwg achlysurol	Ar eu hanterth yn y 1990au	Llwyd y Fagwyr, Glöyn Llwyd, Glöyn Gwyn Cleisiog a Glöyn y Llaethlys

Gweithwyr gwirfoddol yn llosgi prysg a dorrwyd mewn glaswelltiroedd. *Llun: John Zehetmayr*

Dim ond rhywogaethau * sydd â niferoedd sy'n gyson yn fwy nag 20

Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol yng Nghymru

ydyn nhw'n helpu gwarchod ein bywyd gwyllt?

Dylanwadir ar y mwyafrif helaeth o gefn gwlad Cymru gan weithgareddau amaethyddol. Sefydlwyd cynllun amaeth-amgylcheddol Tir Gofal i helpu cynnal y fioamrywiaeth sy'n dibynnu'n helaeth ar reolaeth amaethyddol i oroesi. Erbyn hyn mae miloedd o gytundebau Tir Gofal ledled Cymru. Fodd bynnag, dydyn ni ddim yn gwybod a yw'r rhain yn darparu'r adnoddau allweddol ar gyfer rhywogaethau pwysig, yn y llefydd iawn ac ar yr adegau iawn. I löynnod byw a gwyfynod, tystiolaeth gyfyngedig neu anecdotaidd yn unig sydd gennym gan ein gwirfoddolwyr y gallai cynlluniau gael eu gwella.

Er enghraifft, sefydlwyd un o'r trawsluniau a gerddir fel rhan o Gynllun Monitro Glöynnod Byw y DU yn fwriadol i gynnwys cyfarwyddebau cynllun Tir Gofal gwahanol. Dangosir canlyniadau 2007 y trawslun yn Ffigur 1. Mae Adran 2 yn ddôl lawn blodau heb ei phori o fis Mai i fis Medi, mae Adran 4 yn lan llyn fach heb ei rheoli ac Adran 8 yn cael ei phori'n ysgafn ac yn eithaf trwchus. Yng ngweddill yr adrannau, mae defaid yn pori yn gyffredinol. Mae'r canlyniadau yn dangos yr effaith andwyol y gall y dywarchen fer, unffurf a geir pan fydd defaid yn pori ei chael ar niferoedd y glöynnod byw. Hefyd maen nhw'n amlygu manteision cyfyngu pori i lefelau a/neu amserau penodol yn ystod y flwyddyn.

Mae Gwarchod Glöynnod Byw yn rhan o gonsortiwm o fudiadau bywyd gwyllt sy'n gweithio ar hyn o bryd, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ddarparu gwybodaeth fwy manwl gan ganolbwyntio'n benodol ar Dir Gofal. Cynhelir astudiaeth ddesg i bennu'r anghenion ecolegol ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau ac i asesu pa gyfarwyddebau cynllun ddylai gyflwyno'r adnoddau hyn. Bydd hyn yn gadael i ni benderfynu a yw anghenion allweddol rhywogaethau a ddetholir yn cael eu bodloni ac felly, a fyddem yn disgwyl i'r cynlluniau helpu gwrthdroi'r dirywiad a chynnal rhywogaethau blaenoriaeth yng Nghymru. Dilynir yr astudiaeth ddesg (yn amodol ar dderbyn cyllid) gan elfen o waith maes fydd yn ategu'r astudiaeth ddesg trwy archwilio'r lleoliadau eu hunain a gwneud argymhellion ar newidiadau posibl i'r cynllun.

Wrth reswm, nid cyfanswm y glöynnod byw a gyfrifir yw'r unig ffon fesur bwysig o ran llwyddiant rheoli. Gall arferion rheoli gael eu targedu'n benodol tuag at gynnal y rhywogaethau hynny, fel Gweirlöyn Mawr y Waun, sydd ag anghenion cynefin mwy arbenigol. Mae'r rhywogaethau hyn yn fwy agored i golli cynefin ac ymddryllio na rhywogaethau cefn gwlad ehangach.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Clare Williams neu Russel Hobson ar **01792 642972** neu e-bostiwch **wales@butterfly-conservation.org**

Gweirlöyn Mawr y Waun, glöyn byw a gyfyngir yn bennaf i Eryri, a allai elwa o gynllun Amaeth-amgylcheddol Tir Gofal.
Llun: Jim Asher

Mae'r Brithyn Perlog Bach yn rhywogaeth fwy cyffredin ar laswelltiroedd corsiog a llethrau rhedyn sydd ag anghenion rheoli penodol. *Llun: Clare Williams/Gwarchod Glöynnod Byw*



Ffigur 1: Cyfanswm niferoedd glöynnod byw ar adrannau gwahanol trawslun UK BMS a gerddwyd ar fferm yng Ngogledd Orllewin Cymru. Darparwyd y data gan Andrew Graham.

Beth yw'r rhywogaethau pwysicaf yng Nghymru?

GLÖYNNOD BYW

Enw Cyffredin	*Enw Gwyddonol*
britheg frown	*Argynnis adippe*
britheg berlog	*Boloria euphrosyne*
britheg berlog fach	*Boloria selene*
gweirlöyn bach y waun	*Coenonympha pamphilus*
gweirlöyn mawr y waun	*Coenonympha tullia*
glesyn bach	*Cupido minimus*
gwibiwr llwyd	*Erynnis tages*
britheg y gors	*Eurodryas aurinia*

Enw Cyffredin	*Enw Gwyddonol*
gweirlöyn llwyd	*Hipparchia semele*
gweirlöyn y cloddiau	*Lasiommata megera*
gwyn y coed	*Leptidea sinapis*
mantell wen	*Limenitis camilla*
glesyn serennog	*Plebejus argus*
gwibiwr brith	*Pyrgus malvae*
brithribin w wen	*Satyrium w-album*
brithribin brown	*Thecla betulae*

Mae'r Gwibiwr Brith yn rhywogaeth newydd ar y rhestr sydd eisoes yn destun gweithgarwch gwarchod.
Llun: Jim Asher

MACRO-WYFYNOD ☐ Blaenoriaeth yn y DU ■ Cymru yn unig MICRO-WYFYNOD ■

Enw Cyffredin	*Enw Gwyddonol*
coediwr	*Adscita statices*
llwyfwyfyn brith	*Cosmia diffinis*
gwyfyn drewllyd	*Cossus cossus*
moca tywyll	*Cyclophora pendularia*
brychan rhwydog	*Eustroma reticulata*
rhwyll ymylog	*Heliophobus reticulata*
gwalchwyfyn gweny-naidd ymyl gul	*Hemaris tityus*
ton sidan	*Idaea dilutaria*
uwchadain oren	*Jodia croceago*

Enw Cyffredin	*Enw Gwyddonol*
rhisglyn y morfa	*Lycia zonaria britannica*
dolennwr llwydfelyn	*Minoa murinata*
isadain felen loerol	*Noctua orbona*
[gwyfyn] arennau disglair	*Polia bombycina*
brychan pennau saethau	*Rheumaptera hastata*
gwladwr Cymreig	*Xestia ashworthii*
cleddwyfyn cyffredin	*Xylena exsoleta*
gwyfyn Gwent	*Eriopygodes imbecilla*
ton Gwynedd	*Idaea contiguaria*

Enw Cyffredin	*Enw Gwyddonol*
bachadain brin	*Sabra harpagula*
cliradain Gymreig	*Synanthedon scoliaeformis*
Greenweed Flat-body	*Agonopterix atomella*
White-spotted Sable	*Anania funebris*
Currant-shoot Borer	*Lampronia capitella*
Pied Tineid	*Nemapogon picarella*
Scarce Long-horn	*Nematopogon magna*
Scarce Aspen Midget	*Phyllonorycter sagitella*
Scarce Crimson and Gold	*Pyrausta sanguinalis*

Yn dilyn adolygiad o'r rhywogaethau ar Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, mae Cymru wedi diweddaru ei rhestr o Rywogaethau o'r Pwysigrwydd Pennaf ('Rhestr Adran 42'). Ychwanegwyd llawer o löynnod byw a gwyfynod newydd i'r rhestr oherwydd gofidion am eu graddfa dirywio. Mae'r cam nesaf eisoes wedi cychwyn trwy ymgynghori ag arbenigwyr ledled Cymru i nodi pa weithredu sydd ei angen i helpu gwarchod y rhywogaethau newydd ac ailedrych ar ein gwaith cyfredol ar rywogaethau'r rhestr flaenorol. Yn dilyn hyn, cyhoeddir Cynllun Gweithredu Cenedlaethol diwygiedig ar wefan Gwarchod Glöynnod Byw fydd yn llywio ein gwaith dros y deng mlynedd nesaf.

Er bod y rhestr yn edrych yn eithaf brawychus, mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar rai o'r rhywogaethau. Er enghraifft, mae Gwarchod Glöynnod Byw yn gweithio gyda Chyngor Wrecsam a phartneriaid eraill i sicrhau cadwraeth poblogaethau pwysig o'r Gwibiwr Brith a'r Gwibiwr Llwyd. Mae Stad Ddiwydiannol Wrecsam yn safle tir llwyd mawr ac rydyn ni'n helpu sicrhau bod anghenion y glöynnod byw cain hyn yn cael eu hystyried wrth i'r safleoedd gael eu datblygu. I rywogaethau prin fel y Gwyfyn Silwraidd sydd ond i'w gael mewn ardal pedwar cilomedr sgwâr ym Mlaenau Gwent, rydym bellach yn ceisio deall dosbarthiad ei gynefin bridio yn well.

Hefyd, mae'r rhestr newydd yn rhoi cyfleoedd i fwy o bobl gymryd rhan wrth warchod glöynnod byw a gwyfynod. Mae rhai o'r rhywogaethau, fel y Brithribin Gwyn, yn nodedig ac yn eithaf cyffredin felly gall mwy o bobl helpu dod o hyd i nythfeydd newydd. Mae eraill, fel Gwyfyn y Pigoglys i'w cael mewn ardaloedd dinesig gan eu bod yn bridio ar blanhigion gardd cyffredin fel llwyni cyrens. Mae angen mwy o ymchwil i ddarganfod achos dirywiad rhywogaethau o'r fath sydd yn dal yn gyffredin mewn rhannau o Brydain. Mae'r gwyfynod mwy cyffredin hyn yn rhoi cyfle i bawb helpu trwy gofnodi, hyd yn oed yn eu gerddi eu hunain.

Er mwyn dod i wybod mwy am y rhywogaethau a restrwyd, ewch i wefan Gwarchod Glöynnod Byw **www.butterfly-conservation.org** i weld Cynllun Gweithredu Cenedlaethol diwygiedig Cymru.

Diolch i'r holl gofnodwyr sirol ac arbenigwyr eraill a ymatebodd i'r ymgynghori ar restr glöynnod byw a gwyfynod Cymru ac adolygiad y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol.

Rhaglen Arian i Bawb y Gwyfyn-wyr



Gwensgod y Moresg, gwyfyn nodedig yn genedlaethol a ddarganfuwyd ym Morfa Conwy yn ystod un o'r ymweliadau safle.
Llun: Julian Thompson

Am yr wyth mlynedd diwethaf, cafwyd cyfarfodydd misol o'r gwyfyn-wyr yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae 'Undeb y Gwyfynwyr' (neu'r 'Mother's Union'), fel mae'n cael ei adnabod, yn rhoi cyfle anffurfiol i wyfyn-wyr profiadol a newydd gyfarfod a chyfnewid gwybodaeth. Gydag anogaeth y gymuned fach ond brwd yma, derbyniodd Canolfan Gwarchod Pensychnant grant gan Arian i Bawb (Cymru) i redeg cyfres o weithdai i wella maint ac ansawdd cofnodi gwyfynod yng Ngogledd Cymru yn 2007.

Mae gweithdy ar adnabod macro-wyfynod a nosweithiau o gwmpas y trap gwyfynod yn achlysuron llawen i bobl ar bob lefel gallu i ddysgu ac addysgu, boed hynny'n deall yr Isadain Felen gyntaf neu wahaniaethu rhwng y 'rhai bach brown'. Hefyd, cynhaliwyd gweithdai ar y micro-wyfynod gan ddangos, hyd yn oed gyda'r grŵp bach anfad yma, fod modd adnabod llawer ohonynt yn ddigon hawdd gyda'r llyfrau modern ardderchog a'r rhyngrwyd. I'r rhai 'amhosibl', dangoswyd adnabyddiaeth allweddol trwy ddyrannu genitalia gan yr arbenigwr Dr. Mike Hull. Hwyrach, gydag ymarfer, mae ein rhwydwaith o wyfyn-wyr wedi eu harfogi i ymdrin â phob her adnabod (wel, efallai!).

Mewn digwyddiad arall, goleuodd 32 o faglau golau syfrdanol Fwlch Sychnant wrth chwilio am y Gwladwr Cymreig a Thon Gwynedd a chofnodwyd cyfanswm o 123 o rywogaethau. Mewn nosweithiau maglu mewn gwarchodfeydd natur lleol eraill, cafwyd cofnodion newydd a gwerthfawr gan gynnwys Gwensgod y Moresg sydd yn nodedig yn genedlaethol ym Morfa Conwy. Y gobaith yw y bydd presenoldeb y rhywogaeth yma ar dwyni Conwy yn cryfhau dadleuon cadwraethwyr i weithredu i warchod y safle gwerthfawr hwn.

Ni fyddai'r cofnodion gennym oni bai am y cofnodwyr. Mae'n hawdd cyfrif llwyddiant rhaglen Arian i Bawb y Gwyfyn-wyr o ran y niferoedd sy'n cymryd rhan, nifer y rhywogaethau neu'r pwysigrwydd a roddir i rai cofnodion. Fodd bynnag, daeth y gwir lwyddiant yn sgil y brwdfrydedd a grëwyd a'r ffrindiau newydd a wnaethpwyd. Byddaf bob amser yn ddiolchgar i'r nifer o arbenigwyr sydd wedi dangos pethau newydd i eraill, er enghraifft y Gwyfyn Cennog a oedd yn wir ryfeddod ar ddiwrnod diflas ym mis Tachwedd. Mae gwyfynod yno i'w canfod a gallwch chithau eu profi a chyfrannu cofnodion gwerthfawr.

Julian Thompson, Cofnodydd Gwyfynod Sir Gaernarfon.

Mary Rivers ar ddiwedd ei thaith gerdded noddedig gyda David Bridges, Pennaeth Codi Arian Gwarchod Glöynnod Byw.
Llun: Simon Lumkin

Brithribin Gwyrdd – daethpwyd o hyd i nythfeydd newydd yn ystod y daith gerdded. *Llun: Jim Asher*

Cerdded ar hyd Arfordir y Glöynnod

Helpodd dymuniad Mary Rivers i ddathlu bywyd ei diweddar dad i godi proffil glöynnod byw yn Sir Benfro.

Ym mis Mehefin, cwblhaodd Mary daith noddedig 70 milltir er cof am ei thad, Claude Rivers, entomolegwr enwog. Helpodd y daith i godi arian ar gyfer Apêl 'Saith Rhyfeddol' Gwarchod Glöynnod Byw. Diolch i grant gan gynllun Grantiau Bychain Cynaliadwy Sir Benfro, cynhyrchwyd taflen glöynnod byw hefyd a'i dosbarthu i gerddwyr eraill ac i lefydd Gwely a Brecwast a Chanolfannau Gwybodaeth i Dwristiaid. Bydd y daflen yn helpu pobl leol ac ymwelwyr fel ei gilydd i fwynhau glöynnod byw arfordir gwyllt Gogledd Sir Benfro.

Dechreuodd y daith gerdded gyda noson gwyfynod ar dir iasol Castell Aberteifi a chofnodwyd glöynnod byw ar hyd y daith. Darganfuwyd nythfeydd newydd o'r Brithribin Gwyrdd a'r Brith Gwyrdd Tywyll, gan gynyddu ein gwybodaeth o'r ardal hon sydd yn derbyn llawer iawn o ymwelwyr. Meddai Mary:

'Mae cerdded ar hyd yr arfordir bendigedig yma yn ffordd wych o goffáu bywyd fy nhad. Treuliai oriau diddiwedd yn astudio glöynnod byw a gwyfynod ac roedd wrth ei fodd yn cael gwyliau ar y rhan yma o'r arfordir gan eu bod nhw mor doreithiog yma.'

Chwilio am y Brithribin Gwyn

Y tro diwethaf i'r Brithribin Gwyn gael ei weld ym Meirionnydd oedd 1984. Yn 2007 lansiwyd Prosiect y Brithribin Gwyn ar draws Cymru a Lloegr a fydd yn rhedeg hyd at 2009. Edrychais i am y Llwyfen Lydanddail (mae ganddi flodau pinc trawiadol yn gynnar yn y gwanwyn) mewn dau sgwâr a ddetholwyd ar hap ym Meirionnydd a chwiliais ardal Harlech yn helaeth. Des i o hyd i lawer o goed Llwyfen lydanddail yng nghanol yr ynn a'r sycamorwydd a allai gael eu defnyddio gan löynnod byw sy'n oedolion fel bwyd. Ni welwyd wyau yn y gwanwyn na'r hydref ond ychydig o ganghennau yn unig oedd yn ddigon isel i'w harchwilio.

Er gwaethaf chwilio sawl gwaith y tu allan i Abermo, ni welwyd arwyddion o'r Brithribin Gwyn er bod ambell Lwyfen i gael yn y dref. Ar 16 Mehefin mewn heulwen ysbeidiol ond eithaf cryf, ces i gipolwg ar bedwar neu bum glöyn byw tywyll gyda hedfaniad nodweddiadol aflonydd y Brithribin, ar frig palalwydden fawr sy'n edrych dros y Llwyf. Ers i Brian Roberts roi gwybod am weld y Brithribin Gwyn yn bendant ger Treffynnon yn Sir y Fflint ar 18 Mehefin, rwy'n tybio mai'r Brithribin Gwyn oedd y rhain er na welais i mo hedfan troellog nodweddiadol y gwryw yn gwrthdaro.

Rwy'n bwriadu monitro'r safle hwn y flwyddyn nesaf ac edrych ar ardaloedd cyfagos eraill gan ddefnyddio telesgop achos bod y coed mor dal. Mae dal nifer o sgwariau 10 cilomedr i'w harolygu am bresenoldeb y glöyn byw pen coeden gwibiog yma ledled Cymru. Er enghraifft, mae clystyrau o goed Llwyfen ar y gwastadedd arfordirol yn ne Sir Gâr. Mae'r gwaith maes yn bleserus dros ben ac rwyf wedi dysgu llawer am goed a gweld llawer o löynnod byw eraill tra'n hela'r brithribin gwyn.

Am fwy o fanylion am Brosiect y Brithribin Gwyn ewch i'r wefan
www.hertsmiddx-butterflies.org.uk/w-album/index

Helen Bantock, Golygydd Cylchlythyr Cangen Gogledd Cymru

Brithribin Gwyn yn bwyta neithdar y mieri.
Credit: Helen Bantock

Ymweliad brenhinol â Gardd Glöynnod

Rhoddodd Brithribin Gwyn sioe frenhinol ymlaen yng Ngerddi Wynn, Hen Golwyn. Rhuglodd y glöyn byw ei adenydd yng nghanol y blodau wrth i'r Tywysog Edward a Sophie, Iarlles Wessex, fynd am daith o gwmpas y pentref a enwebwyd sawl gwaith fel pentref Cymru yn ei Blodau. Mi greais i'r ardd glöynnod byw gyhoeddus yma rai blynyddoedd yn ôl ac mae wedi llwyddo i aeddfedu a bod yn atyniad mawr i'r Brithribin Gwyn sy'n bridio ar goed Llwyfen yr ardd. Rhoddodd gyfle da i mi egluro i'r Tywysog sut mae'r Brithribin Gwyn wedi dioddef oherwydd clefyd Llwyfen yr Iseldiroedd. Roedd yn wych hefyd fod yr ardd yn ganolbwynt i bobl leol yn ogystal â'r bywyd gwyllt gan fod creu'r gerddi hyn yn mynd â llawer o amser ac ymdrech.

Ar ben hynny, lansion ni Ardd Glöynnod Byw arall ym mis Gorffennaf yn Nhŷ Glöynnod Conwy. Daeth llawer o bobl ar ymweliad a recriwtion ni 20 aelod newydd. Cafwyd help llaw gan Iolo Williams a dreuliodd ddwy awr yn adrodd storïau bywyd gwyllt a gweithio'n agos â'r nifer o ymwelwyr iau.

Diolch i Dŷ Glöynnod Conwy am roi cartref i'r digwyddiad a chodi arian, i Becky Groves o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn enwedig i'm cydwirfoddolwyr a staff Gwarchod Glöynnod Byw am helpu sicrhau llwyddiant mawr ar y diwrnod.

Jan Miller, Swyddog Addysg a Chyhoeddusrwydd Cangen Gogledd Cymru

Dangosir Brithribin Gwyn i'r Tywysog Edward gan Jan Miller, wrth iddo fwyta neithdar y blodau yn yr ardd glöynnod byw a sefydlodd yng Ngerddi Wynn, Hen Golwyn. *Llun: Mr Prout*

Iolo Williams gydag edmygwr glöynnod byw ifanc yn Nhŷ Glöynnod Conwy. *Llun: Brian Roberts*

Sut i helpu yn 2008

Mae ein prosiectau i gyd yn rhoi profiad cyffrous gyda'r glöynnod byw a gwyfynod sydd gennym yng Nghymru a chyfle hyfryd i ymweld â rhai o ardaloedd mwyaf syfrdanol y wlad.

Prosiectau Glöynnod Byw a Gwyfynod dan Fygythiad

Bydd Gwarchod Glöynnod Byw Cymru yn canolbwyntio ar arolygu a rhoi cyngor cadwraethol ynghylch y rhywogaethau sydd fwyaf dan fygythiad, yn enwedig Brith y Gors, y Brithyn Brown a'r Brithyn Perlog, y Gwalchwyfyn Gwenynog Ymyl Gul a'r Gwyfyn Tonnog Sidanaidd. Mae ffeithlenni a thaflenni ar gael gan Swyddfa Cymru am lawer o'r rhywogaethau prin neu dan fygythiad.

Gwarchodfeydd Natur Gwarchod Glöynnod Byw - Eyarth Rocks a Chaeau Ffos Fach

Byddem yn croesawu help gyda'r gwaith rheoli a monitro yn ein gwarchodfeydd.

Cysylltwch â ni os gallwch helpu gydag unrhyw un o'n prosiectau ni neu os carech chi gael mwy o fanylion am waith Gwarchod Glöynnod Byw yng Nghymru.

Cyfrif Gwyfynod

Am fwy o wybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi o gwmpas Cymru neu sut i gymryd rhan, cysylltwch â thîm y Cynllun Cofnodi Gwyfynod Cenedlaethol yn Gwarchod Glöynnod Byw ar **01929 406022** neu e-bostiwch **nmrs@butterfly-conservation.org**

Cynllun Monitro Glöynnod Byw'r DU

Am ymholiadau cyffredinol cysylltwch â Clare Williams, Cydlynydd Trawsluniau Cymru ar 01792 642972 neu e-bostiwch **wales@butterfly-conservation.org.** Mae mwy o wybodaeth ar gael trwy ymweld â'r wefan **www.ukbms.org**

YMUNWCH HEDDIW!

Os nad ydych chi'n aelod o Gwarchod Glöynnod Byw yn barod, beth am ymuno?
Fel aelod fe dderbyniwch chi ein cylchgrawn mewnol 'Butterfly' 3 gwaith y flwyddyn, sy'n llawn o erthyglau diddorol a lluniau gwych. Byddwch yn dod yn aelod o'ch Cangen ranbarthol hefyd ac yn derbyn cylchlythyron lleol, ynghyd â chroeso cynnes i ymuno ag ymweliadau â'r maes, sgyrsiau a digwyddiadau eraill yn eich ardal.

Bydd eich cefnogaeth CHI'n ein helpu i barhau â'n gwaith cadwraethol hanfodol i atal dirywiad ein glöynnod byw a'n gwyfynod hardd.

Ymunwch ar y we nawr ar www.butterfly-conservation.org neu ffoniwch ni ar 01929 400209.

40 mlynedd
Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Tîm Gwarchod Glöynnod Byw Cymru

Russel Hobson, Pennaeth Cadwraeth
Deborah Sazer, Swyddog Prosiect Mynydd Mawr
Clare Williams, Swyddog Cadwraeth
Judy Burroughs, Cynorthwywraig Weinyddu

Gwarchod Glöynnod Byw Cymru
10 Rhes Calvert, Abertawe SA1 6AR
Ffôn: 01792 642972
E-bost: wales@butterfly-conservation.org

Prif Swyddfa Gwarchod Glöynnod Byw
Manor Yard, East Lulworth, Wareham, Dorset BH20 5QP
Ffôn: 01929 400209
E-bost: info@butterfly-conservation.org
www.butterfly-conservation.org

Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 2206468 – Rhif Elusen Gofrestredig 254937
Gwarchod Glöynnod Byw yw'r elusen yn y DU sy'n gweithredu dros achub glöynnod byw, gwyfynod a'u cynefinoedd. Mae Gwarchod Glöynnod Byw yn gweithio ar y cyd ag ystod eang o bartneriaid trwy:

- Gynghori perchnogion a rheolwyr tir ynghylch cadw ac adfer cynefinoedd pwysig.
- Prynu a rheoli tir er lles glöynnod byw, gwyfynod a rhywogaethau gwyllt eraill sydd dan fygythiad.
- Cynnal arolygon, monitro a chyflawni gwaith ymchwil pwysig arall.
- Lobïo'r llywodraeth a'i hasiantaethau i ddylanwadu ar bolisïau defnyddio tir.

Mae Gwarchod Glöynnod Byw yn ddiolchgar iawn i'r sefydliadau canlynol sydd wedi gwneud ein gwaith yng Nghymru'n bosibl:
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Forest Research, Ymddiriedolaeth Llysdinam, Grid Cenedlaethol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cynllun Grantiau Bychain Cynaliadwy Sir Benfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Cynhyrchwyd y cylchlythyr hwn trwy garedigrwydd grant gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.
Golygwyd gan staff Gwarchod Glöynnod Byw. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y cylchlythyr hwn o anghenraid yn adlewyrchu safbwynt Gwarchod Glöynnod Byw.